Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.14 Swyddogaeth craffu llywodraeth leol

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2000 i awdurdodau sefydlu o leiaf un pwyllgor trosolwg a chraffu. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae mwy nag un pwyllgor a hefyd, yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae'r gair 'trosolwg' wedi cael ei ollwng a chânt eu galw'n syml yn bwyllgorau craffu. O Hydref 1af 2009 mae yna ddyletswydd yn ôl rhan o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 i bob awdurdod lleol gael pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn i edrych yn benodol ar faterion diogelwch yn y gymuned.

Beth yw craffu?

Mae pwyllgorau craffu yn gyfryngau gwirioneddol bwysig o ran herio, gwella a newid o fewn awdurdodau lleol, a bydd cyfleoedd i grwpiau trydydd sector gyfrannu at hyn. Ni chaniateir i unrhyw aelodau o'r cabinet neu'r bwrdd wasanaethu ar bwyllgorau craffu – yn hytrach, cynghorwyr meinciau cefn sydd arnynt. Nid oes gan y pwyllgorau unrhyw bwerau penderfynu ond maent yn gwneud argymhellion i'r cyngor llawn.

Felly beth mae pwyllgorau craffu yn ei wneud? Mae 4 swyddogaeth fras:

- Dal y cabinet neu'r bwrdd i gyfrif. Mae prosesau o fewn pob cyngor lle gall penderfyniadau'r cabinet gael eu 'galw i mewn' er mwyn craffu arnynt. Dyna pam na chaiff aelodau'r cabinet wasanaethu ar bwyllgorau craffu, fel bod modd archwilio penderfyniadau'r cabinet yn wrthrychol.
- Datblygu ac adolygu polisi, lle mae'r pwyllgor yn ystyried effaith polisïau neilltuol o eiddo'r cyngor.
- Gwella safonau perfformiad drwy fonitro eu gwasanaethau eu hunain.
- Craffu allanol ar wasanaethau sy'n cael eu darparu yn eu hardal gan asiantaethau eraill.

Sut caiff pwyllgorau craffu eu strwythuro?

Mae strwythurau craffu yn gweithredu mewn ffordd wahanol ym mhob ardal gyngor, o ddull pwyllgor traddodiadol, i ddulliau a strwythurau mwy anffurfiol a chyfranogol ac mae cynghorau wedi cael caniatâd i weithredu fel y dymunant fwy neu lai.

Pwysigrwydd ymgysylltu â'r swyddogaeth craffu.

Ar ôl deall diben gwaith craffu h.y. gwella penderfyniadau, polisi, ymarfer a'r ddarpariaeth gwasanaethau yn lleol, daw'n amlwg fod gan gyrff trydydd sector gyfraniad pwysig i'w wneud o ran:

- darparu arbenigedd a thystiolaeth rheng flaen am y ddarpariaeth gwasanaethau yn lleol ac effaith polisïau lleol

- darparu mynediad at leisiau defnyddwyr gwasanaethau – sydd yn aml wedi cael eu difreinio neu sy'n aml yn lleisiau 'anodd eu clywed'.
- helpu cynghorwyr yn eu rôl drwy fynegi pryder a rennir ynglŷn â lles cymunedau lleol, gan weithredu fel ffrind beirniadol ac awgrymu atebion i broblemau.

Fodd bynnag, mae llawer o elfennau o hyd sy'n rhwystr rhag i'r trydydd sector gyfrannu i waith craffu. Mae'r rhain yn cynnwys y ffaith nad oes dealltwriaeth dda o'r swyddogaeth, nad oes dealltwriaeth dda weithiau o rôl a gwerth y trydydd sector, weithiau nid yw'r adnoddau gan y sector i allu cyfrannu ac mae'r cynghorwyr weithiau'n meddwl mai eu gwaith nhw yn unig, fel cynrychiolwyr etholedig, yw ymgymryd â'r rôl graffu. Mae llawer o awdurdodau lleol yn ymrafael â'r ffaith na chât cyrff allanol fod yn aelodau o bwyllgor craffu gan na fyddai ganddynt hawliau pleidleisio.

Sut y mae ymgysylltu â chraffu

Y man cychwyn er mwyn cyfrannu yw cael gair â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol – bydd ganddo ef gysylltiadau â'r awdurdod lleol. Mewn rhai ardaloedd bydd y Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gweithredu mewn rôl gynrychioli ar ran y sector, gan wasanaethu ar bwyllgorau a bwydo llais y sector iddynt. Mewn ardaloedd eraill, bydd y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn arddel rôl gyd-drefnu, gan gynorthwyo aelodau unigol o'r sector i wasanaethu ar bwyllgorau a chynrychioli llais y trydydd sector yn eu hardal. Fodd bynnag, nid eistedd fel aelodau o bwyllgorau craffu yw'r unig ffordd o gyfrannu. Gallai grwpiau trydydd sector weithredu fel cynghorwyr ar faterion penodol, neu gallent roi tystiolaeth i bwyllgorau fel tystion arbenigol yn y maes y maent yn arbenigo ynddo. Neu gallech awgrymu meysydd sy'n destun pryder (gwasanaeth neu bolisi penodol, efallai) yr hoffech chi i'r cyngor graffu arno.

Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau swyddog craffu a all drafod gweithio gyda'r pwyllgorau craffu gyda chi. Mae'n werth bwrw golwg ar wefan eich cyngor i gael rhagor o wybodaeth am sut mae craffu yn gweithio yn eich ardal chi. Efallai na fydd yn amlwg ar unwaith ymhle y dylech edrych pan gyrhaeddwch dudalen flaen y wefan, ond teipiwch 'craffu' neu 'trosolwg a chraffu' yn y blwch chwilio ar y dudalen flaen a, gyda lwc, byddwch yn synnu ar yr ochr orau pa wybodaeth y gallwch ei chael. Mae gan rai cynghorau ffurflen ar-lein hyd yn oed y gallwch ei llenwi i wneud awgrymiadau ynglŷn â'r hyn y dylai'r cyngor fod yn craffu arno.

Pwyllgorau craffu trosedd ac anhrefn

Mae sefydlu'r pwyllgorau yma yn deillio o ddeddfwriaeth wahanol ac felly yn gweithredu mewn ffordd ychydig yn wahanol i bwyllgorau craffu awdurdod lleol eraill. Gellir cyfethol cynrychiolwyr yr heddlu, yr adran brawf, y Bwrdd iechyd Lleol a'r gwasanaeth tân ar y pwyllgorau yma, a bydd ganddynt hawliau pleidleisio yn ôl disgresiwn pob pwyllgor. Yn anffodus, yn ôl y rheoliadau cyfredol, nid oes darpariaeth ar gyfer cyfethol cyrff allanol eraill, megis y cyrff trydydd sector, ond bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych i newid y rheoliadau yng Nghymru yn ei bryd.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes rôl ar gyfer y sector. Fel gyda phwyllgorau graffu eraill, dylai fod cyfleoedd i gysylltu fel tystion ac ymgynghorwyr arbenigol, a gweithredu fel sianel ar gyfer lleisiau dinasyddion.

Datblygiad diddorol yn y pwyllgorau craffu trosedd ac anhrefn yw cyflwyniad mecanwaith a elwir yn "cynghorwr yn galw am weithrediad" (CCfA). Mae hwn yn rhoi hawl newydd i gynghorwyr i godi materion pryder lleol gyda'r pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn. Gall y pwyllgor benderfynu wedyn os dylid defnyddio'i bwerau i archwilio'r mater. Mae yna ystod o opsiynau ar gael i'r pwyllgorau wrth ystyried sut i ymateb. Er enghraifft, gallant gychwyn adolygiad polisi, galw aelodau a swyddogion i fynychu cyfarfod neu ateb cwestiynau neu wneud argymhellion i'r pwyllgor gwaith. Gallant hefyd ofyn i'r pwyllgor gwaith i adolygu penderfyniad a wnaed.

Wrth gwrs, gall cynghorwyr barhau i ddatrys materion yn anffurfiol, fel yn bresennol, ond ble bynnag maen nhw'n anfodlon nad oes gweithredu cywir wedi digwydd i ddatrys y mater a godwyd ganddynt, mae'r gallu ganddynt i ofyn i'r pwyllgor craffu trosedd ac anhrefn i fynd â'r mater ymhellach. Mae hwn yn darparu cyfle i gyrff y trydydd sector i weithio law yn llaw â'u cynghorwyr lleol i godi'r materion trosedd ac anhrefn hynny sy'n bwysig iddynt.

Datblygiadau ym maes craffu

Ym mhob ardal, mae ymgyrch ar waith i wella'r ffordd y mae craffu'n gweithio ac mae hyn yn cael ei gefnogi ar hyn o bryd gyda grantiau o Gronfa Datblygu Gwaith Craffu Llywodraeth Cynulliad Cymru**.** Nid yw eto mor gynhwysol ag y gallai fod nac yn canolbwyntio cymaint ar y dinesydd â phosibl, ac nid oes gan lawer o ddinasyddion fawr o wybodaeth, neu ddim gwybodaeth o gwbl, o hyd am y swyddogaeth, ei phwrpas, neu sut i gyfrannu iddi.

Yn yr hydref 2009, ar ôl sicrhau'r pwerau hyn gan San Steffan, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn debygol o ddechrau cyflwyno eu cynlluniau i ddeddfu ar gyfer gwelliannau o ran y ffordd y mae craffu'n gweithredu, a fydd yn cynnwys deddfu er mwyn galluogi cyrff allanol i gyfethol a chael hawliau pleidleisio mewn pwyllgorau craffu. Dylai hyn ei gwneud yn haws i'r trydydd sector ymgysylltu â'r broses, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle credir mai dim ond aelodau sydd wedi'u hethol sydd â'r mandad craffu. Dylai hefyd arwain y ffordd ar gyfer newidiadau i'r rheoliadau sy'n llywodraethu pwyllgorau trosedd ac anhrefn sydd ar hyn yn bryd yn atal cyfethol y cyrff trydydd sector. Fel y dywedodd Brian Gibbons yn ddiweddar mewn digwyddiad ar wneud mwy o graffu, '..rydym yn gweithio gyda'n gilydd, felly dylem graffu gyda'n gilydd..'

Gwybodaeth Bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:18/08/2009

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk